# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **14 Chwefror 2017** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Mair Rowlands** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Sioned Owen** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **01286 662632** |
| **Teitl yr Eitem:** | Ymestyn gofal plant i 30 awr ar gyfer plant 3- 4 oed yng Nghymru a gweithredu'r gofynion statudol Deddf Gofal Plant 2006 |

## 1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

1. Dynodi ardaloedd Llesiant Bangor, Dolgellau, Ffestiniog a Porthmadog fel ardaloedd peilot yng Ngwynedd fydd yn gweithredu'r cynnig gofal plant yn ystod 2017 -18.

2. Ymrwymo i dderbyn adnoddau'r grant er cyflawni'r peilot (swm ar gael o'r Llywodraeth i Wynedd a Môn yn £1,869,719)

3. Cytuno i sefydlu Uned Gofal plant Gwynedd a Môn ar gyfer 2017-18

## 2 CYFLWYNIAD

Mae'r Llywodraeth yn cydnabod mai gofal plant yw un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu teuluoedd sy'n gweithio yng Nghymru, a dyna pam bod datblygu cynnig gwell ar gyfer gofal plant yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth.
Mae Llywodraeth Cymru bellach wedi ymrwymo i ddarparu, o fewn tymor presennol y Llywodraeth, 30 awr yr wythnos o addysg gynnar a gofal plant am ddim i rieni sy'n gweithio, ac sydd â phlant 3 neu 4 mlwydd oed, am 48 wythnos y flwyddyn.
Bydd yr addysg gynnar am ddim a ddarperir gan y Cyfnod Sylfaen ar hyn o bryd yn rhan o'r cynnig hwn. Disgwylir i'r cynnig gofal plant fod mor glir ac mor hawdd i gael gafael arno â phosibl fel y gall rhieni barhau i ddewis y darparwyr sy'n fwyaf priodol i'w hanghenion.
Prif amcanion y Llywodraeth wrth ymestyn yr hawl yw:

- i gynnig cefnogaeth i fagu'r genhedlaeth nesaf
- i gynnig mwy o ddewisiadau cyflogaeth i rieni
- i drechu Tlodi
- i hybu cydraddoldeb
- i gefnogi datblygiad plentyn

Mae helpu teuluoedd gyda gofal plant fforddiadwy a hyblyg o safon uchel yn cefnogi adfywio economaidd, yn lleihau pwysau ar incwm teuluoedd ac yn helpu rhieni i weithio, sy'n lleihau'r risg bod y teulu yn byw mewn tlodi. Mae hefyd yn gwella lles plant drwy roi profiadau cadarnhaol a gwerthfawr iddynt yn eu plentyndod.

Hefyd mae'r Cyngor yn gorfod gweithredu dyletswyddau'r ddeddf gofal plant 2006 drwy gynnal asesiad digonolrwydd gofal plant bob 5 mlynedd a datblygu'r maes i sicrhau gofal plant digonol i deuluoedd Gwynedd.

**Gweithredwr Cynnar i'r Cynllun Gofal Plant 30 awr**

Mae'r Llywodraeth wedi enwebu Gwynedd a Môn i fod yn weithredwr cynnar ar y cyd. Bydd y gweithredwr cynnar yn cael eu hariannu yn gynnar, gyda'r bwriad o gydweithio gyda'r Llywodraeth o 17-18 ymlaen gan gynorthwyo i brofi'r canlynol cyn bod y cynllun yn mynd yn Genedlaethol yn 2020.

**1.** Brofi

- pa mor hygyrch â hawdd ydyw i rieni ddefnyddio'r cynnig,
- pa mor hygyrch â hawdd ydyw i ddarparu'r cynnig;
- sut y mae'r cynnig yn eistedd ochr yn ochr â Chyfnod Sylfaen y Blynyddoedd Cynnar;

**2.** Nodi materion a allai godi i rieni, awdurdodau lleol a lleoliadau o ganlyniad i ddarparu neu geisio darparu'r cynnig;

- Ystyried sut y gellid mynd i'r afael â'r materion hynny gan ddefnyddio atebion rhad / am ddim;
- Deall sut y gall y cynnig weithio orau i alluogi rhieni i gael mwy o ddewisiadau o ran gyrfa;
- Meithrin gwell dealltwriaeth o'r effaith y mae'r cynnig yn ei chael ar rieni, awdurdodau lleol, darparwyr gofal plant a'r sector gofal plant yn gyffredinol.

**Sefydlu Uned Gofal Plant Gwynedd a Môn**

Yn sgil y datblygiad hwn ar sialensiau ynghlwm cafwyd trafodaethau ar y cyd gyda Môn i drafod yr opsiwn i greu uned bwrpasol gofal plant Gwynedd a Môn a fyddai'n cynnwys y gwaith presennol o ran y maes gofal plant h.y. dyletswyddau deddf gofal plant 2006 y ddwy sir a'r arian ychwanegol ynghlwm gyda'r cynllun newydd i greu tîm o swyddogion i fynd a'r maes yn ei flaen i gyrraedd yr her.
Wrth greu'r uned yma byddai Gwynedd yn lletya'r uned o fewn swyddfa ym Mangor gyda'r rheolaeth yn disgyn o fewn yr Uned Blynyddoedd Cynnar, Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd .

Gweler atodiad 1 – model staffio

## 3 RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

**Dewis ardaloedd peilot ar gyfer 2017-18**

Yn dilyn trafodaethau pellach gyda'r Llywodraeth nodwyd y bod angen i Wynedd a Môn geisio targedu **800** o blant yn ystod 17-18 gyda Gwynedd yn targedu 62% o'r ffigwr yma sef **496** yn unol â'r gwahaniaeth o ran poblogaeth.
Bwriedir ariannu 100% o'r costau sydd yng nghlwm â'r cynllun hwn drwy grant penodol oddi wrth Llywodraeth Cymru. Mae'r Llywodraeth yn neilltuo **£1.87 miliwn** ar gyfer 2017-18 i Bartneriaeth Gwynedd a Môn. Cyfrifwyd y swm ar sail fod y cynllun peilot yn cyrraedd tua 800 o blant **(496 yn Ngwynedd a 304 yn Ynys Môn**) am 24 wythnos gyda phob plentyn yn derbyn tua 20 awr o ofal yr wythnos. Cyfrifwyd cyfradd yr awr dangosol gan y Llywodraeth o £4.75 fel cost tebygol o ddarparu awr o ofal dan amodau'r cynllun – gweler y tabl drosodd.

Mae’n amlwg felly bydd rhaid cychwyn y prosiect yn rhannol gan edrych ar ardaloedd penodol o Wynedd gan ddod a'r cynllun i mewn yn raddol gan fod yn gwbl weithredol erbyn 2020.

Nodwyd yn ein cais gwreiddiol i’ r Llywodraeth ein bod fel Gwynedd a Môn am brofi’r cynnig mewn ardaloedd gwledig  a hefyd profi'r symudiad o ran patrymau gwaith ar draws yr afon Fenai gyda theuluoedd Sir Fôn yn defnyddio gofal plant yn ninas Bangor a’r cyffiniau. Bydd hyn yn hwyluso hawliadau i rieni sy’n teithio i sir arall i weithio fel bydd dim rhwystrau i deuluoedd.

Hefyd yn ddiweddar newidiwyd canllawiau Deddf Gofal Plant 2006 o ran drafftio’r asesiad gofal plant ac erbyn hyn mae rhaid gosod y wybodaeth o ran y meysydd gwybodaeth i ardaloedd y ddeddf Llesiant  - gweler atodiad 1. Yn sgil fod y wybodaeth o fewn yr asesiad gofal plant ar lefel ardaloedd llesiant mae’n gwneud synnwyr i ddefnyddio’r un model wth ymestyn yr hawl gofal plant.

Wrth edrych ar y nifer genedigaethau fesul ward o fewn yr ardaloedd llesiant nodwyd y byddai’n bosib ymestyn i 4 ardal o fewn 17-18 os bydd yr arian yn caniatáu ( heb dderbyn cadarnhad swyddogol o hyn gan y Llywodraeth eto.)
Hefyd  bydd yn ddibynnol ar y nifer yn cymryd y cynnig i fyny os ydynt yn gweithio mwy na 16 awr. Nid oes ffigyrau manwl fesul ward ar gael yn nodi ffigyrau posib o faint o rieni sy’n mynd i gymryd yr hawl yn llawn felly bydd rhaid gwneud amcan cychwynnol o 40% a 60% o’r boblogaeth 3 a 4 oed.
Mae’n amlwg os na fydd y teuluoedd yn cymryd y cynnig bydd modd ymestyn i’r ardal nesaf yn gynt na’r disgwyl.

| **Costau Arfaethedig 2017-18** | | |
|---|---|---|
| | **Nifer Plant Amcan** | **Cyfanswm yr Ardal** |
| **Ardal Llesiant** | | |
| Bangor | 272 | £620,160 |
| Porthmadog | 87 | £198,360 |
| Ffestiniog | 56 | £69,160 |
| Dolgellau | 81 | £184,680 |
| **Is-gyfanswm Ardaloedd Peilot Gwynedd** | **496** | **£1,072,360** |
| Cynlluniau Peilot Ynys Môn | 304 | £657,590 |
| Cronfa wrth gefn sy'n weddill | | £139,770 |
| **Cyfanswm Grant Arfaethedig 2017-18** | | **£1,869,720** |

**Gweler atodiad 2 a 3**
**Ardaloedd Peilot 1 – 4**
**Map Ardaloedd Llesiant**

I ddilyn o hyn ac yn unol â’r gyllideb arfaethedig ar gyfer 2018-19/19-20 bydd mwy o ardaloedd yn dod i mewn yn y drefn ganlynol:

- Ardal Llesiant Caernarfon
- Ardal Llesiant Penllyn
- Ardal Llesiant Llŷn
- Ardal Llesiant Tywyn

Bydd yr ardaloedd yn gwbl weithredol gyda'r cynnig erbyn 2020
Bydd y gwaith o gwblhau asesiad digonolrwydd gofal plant yn digwydd erbyn Mawrth 2017 fydd yn darparu gwybodaeth gynhwysfawr gyfredol am y bylchau gofal plant.

Byddai dimensiwn gwledig Gwynedd yn cynnig rhwystrau gweithredu amlwg a bydd rhaid gweithio gyda'r sector a'r mudiadau gofal plant i gymryd y sialens o ran darparu.

### 3.2 Sefydlu Uned Gofal Plant Gwynedd a Môn

Manteision hyn byddai creu tîm pwrpasol ac effeithiol fyddai gyda'r sgiliau i ddatblygu'r maes yn draws sirol gan gydweithio'n agos gyda'r sector, y Llywodraeth a'r mudiadau gofal plant drwy rannu adnoddau ac arbenigedd. Hefyd y sgiliau i weithredu'r cynnig yn rhwydd i rieni drwy wirio hawliadau a gweinyddu taliadau i'r darparwyr.

## 4 CAMAU NESAF AC AMSERLEN

Angen cyflwyno cynllun prosiect i'r Llywodraeth yn ystod mis Chwefror 2017
Mynychu cyfarfodydd cenedlaethol – bob 6 wythnos
Bydd rhaid aros am gadarnhad pellach gan y Llywodraeth sy'n fodlon rhyddhau arian y flwyddyn ariannol 16-17 yma fel bod modd penodi swyddog i fynd ymlaen ar y gwaith o reoli a rhedeg y prosiect. Llywodraeth wedi gyrru drafft swydd ddisgrifiad i ni ystyried.
Angen cytuno, ail strwythuro a phenodi tîm traws sirol i yrru'r gwaith o ran y maes gofal plant yn draws sirol.
Sefydlu Bwrdd Prosiect i'r cynllun.
Asesu a dehongli'r wybodaeth a gasglwyd drwy'r asesiad digonolrwydd gofal plant.
Cyfnod peilot i gychwyn mis Medi 2017
Prosiect yn weithredol ar draws Cymru erbyn 2020

## 5 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

### Prif Weithredwr:

Mae'r cynnig sydd gerbron yn ein galluogi i fod ar flaen y gad yn cyflwyno cynllun blaenoriaeth gan y Llywodraeth ac mae hynny'n gyfle da. Rwy'n nodi bod yr adroddiad yn cadarnhau cymorth grant 100% tuag at y costau ac mae hynny hefyd i'w groesawu.

Fodd bynnag, bydd yn rhaid bod yn ofalus wrth weithredu yn y dyddiau cynnar i sicrhau na fydd y gofynion darblygu ac asesu wrth i'r cynllun symud yn ei flaen yn golygu mynd ag unrhyw amser ac adnoddau o flaenoriaethau lleol.

Rwyf hefyd yn croesawu'r bwriad i gydweithio wrth ddarparu'r gwasanaeth hwn. Y pren mesur ar gyfer unrhyw gynllun cydweithio yw'r budd y mae'n cynnig i bobl Gwynedd. Mae'n ymddangos ar hyn o bryd bod y datblygu arbenigedd a chadernid tim ar y cyd y bydd y cynllun cydweithio yn ei gefnogi yn cynnig hynny.

### Prif Swyddog Cyllid:

Nodaf fod yr awdur wedi cynnwys amcangyfrifon teg o'r costau arfaethedig mewn tabl yn rhan 3 o'r adroddiad, er deallaf bydd trafodaethau yn parhau gyda Llywodraeth Cymru ynghylch y peilot a'i ymestyn.
Ymddengys fod y grant penodol ar gyfer 2017/18 am ariannu 100% o'r gwariant sydd wedi'i gynllunio erbyn 2017/18, gan gynnwys ariannu'r Uned Gofal Plant fel gorbenion o fewn cyfansymiau cost yr ardaloedd.

**Swyddog Monitro:** Mae’r adroddiad ymdrin a threfniadau ar y cyd gyda Cyngor Mon.Mae’n bwysig felly wrth symud ymlaen a’r cynllun fod y trefniadau cyd-weithio yn cael eu ffurfioli er sicyrhau eglurdeb ynglyn a gwireddu’r peilot.